

# Canolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia (CDGD) Cymru: Canolfan Ymchwil

## Pwy ydyn ni?

Mae Canolfan Ymchwil CDGD Cymru yn rhan o'r Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd ym Mhrifysgol Bangor.

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd a lles pobl hŷn a phobl â dementia a'u cefnogwyr, trwy gynnal a chymhwyso ymchwil berthnasol.

Rydym yn adnabyddus yn rhyngwladol am:

- Ein hymchwil o ansawdd uchel mewn meysydd yn cynnwys gwytnwch, allgáu cymdeithasol, heneiddio'n dda, lles gofalwyr, a gweithio rhwng cenedlaethau.
- Datblygu a gwerthuso ymyriadau seicogymdeithasol creadigol ar gyfer pobl â dementia a gofalwyr.
- Ein cyfraniad at ddatblygu a gweithredu polisi.
- Cyflwyno hyfforddiant ar sail tystiolaeth a chyngor i bawb sy'n ceisio gwella ansawdd bywyd, gofal a chefnogaeth i bobl â dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.
- Creu a chefnogi Rhwydweithiau Dementia yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru.

## Ein cyrhaeddiad:

Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda phawb sy'n ymdrechu i wella ansawdd gwasanaethau i bobl â dementia a'u cefnogwyr yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd:

- Yr iaith Gymraeg,
- Treftadaeth ddiwylliannol Cymru,
- Cydbwysedd ardaloedd trefol a gwledig,
- Y gwahaniaethau mewn systemau iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU,

sydd yn gwneud Cymru yn lle unigryw i fyw, gweithio a thyfu'n hŷn.

Credwn ei bod yn bwysig cael Canolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia yng Ngogledd Cymru i sicrhau bod gwerthoedd y rhai sy'n byw yng Nghymru yn cael eu cydnabod a'u cynrychioli mewn ymchwil, polisi ac ymarfer heneiddio a dementia.

Yn greiddiol iddo, nod ein gwaith yw cefnogi'r rhai sy'n rhan o'n cymunedau lleol, a chymdeithas ehangach Cymru.



Er bod cymunedau lleol wrth wraidd yr hyn a wnawn, mae ein gwaith o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn cyfrannu at gorff ehangach o ymchwil a gwybodaeth sy'n anelu at wella bywydau cymaint â phosibl, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

### **Sut ydyn ni'n defnyddio rhoddion:**

Derbynnir yn ddiolchgar unrhyw roddion tuag at Ganolfan Ymchwil CDGD Cymru.

Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gallwn ddefnyddio rhoddion i rannu gwybodaeth, datblygu sgiliau, hybu ymchwil, a chefnogi gofal yn yr ardal leol:

- Bwsariaethau teithio i bobl â dementia a gofalwyr i ddod i'n digwyddiadau.
- Cefnogi cyfranogiad y cyhoedd mewn datblygu ymchwil.
- Cynnal seminarau cyhoeddus.
- Cyflwyno gweithdai datblygiad proffesiynol.
- Cyflwyno digwyddiadau hyfforddi.
- Datblygu deunydd adnoddau gyda'r nod o wella gofal pobl â dementia.
- Cefnogi gweithgareddau a mentrau'r Rhwydweithiau Dementia rhanbarthol.
- Ariannu interniaethau myfyrwyr haf.
- Ariannu efrydiaethau ymchwil.

### **Sut i gyfrannu:**

Os ydych chi'n ystyried rhoi rhodd i Ganolfan Ymchwil CDGD Cymru, neu gynnal digwyddiad codi arian, cysylltwch â ni i drafod unrhyw ofynion sydd gennych chi.

Gellir rhoi rhoddion drwy siec, yn daladwy i 'Prifysgol Bangor'. Bydd yr arian yn cael ei ddyrannu'n benodol i Ganolfan Ymchwil CDGD Cymru.

Anfonwch unrhyw sieciau rhodd at: Ysgrifennydd Prosiectau CDGD,  
CDGD Cymru, Prifysgol Bangor,  
Ardudwy, Safle'r Normal,  
Bangor, Gwynedd,  
LL57 2PZ, DU

Ffôn: 01248 383050

Ebost: [dcdc@bangor.ac.uk](mailto:dcdc@bangor.ac.uk)

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am Ganolfan Ymchwil CDGD Cymru a'n prosiectau cyfredol, edrychwch ar ein gwefan:

<http://dcdc.bangor.ac.uk/index.php.cy>

Cydnabyddir Prifysgol Bangor fel elusen  
(Elusen Gofrestredig Rhif 1141565).

